Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad
Senedd Cymru

Commonwealth Parliamentary Association
Welsh Parliament

# CYFARFOD PWYLLGOR GWAITH Y GANGEN

**Dyddiad:** Dydd Mercher 11 Chwefror 2026

**Amser:** 12:30-13:15

**Lleoliad:** Ystafell fideogynadledda

Yn bresennol
Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd
David Rees AS (Is-lywydd)
Alun Davies AS
Natasha Asghar AS

Ysgrifenyddiaeth
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro'r Gangen
Siân Stoodley, Swyddfa Breifat y Llywydd

1. **CROESO / YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nododd ymddiheuriadau gan:
- Delyth Jewell AS
- Sam Rowlands AS
- Rhianon Passmore AS

2. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** - Papur CPA 6S-25-04

**Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.**

3. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**Dim**

4. **<u>Adborth ar gyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau diweddar, a chamau dilynol</u>**

- *<u>Cenhadaeth Arsylwyr Etholiadol Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR EOM)</u>*
*<u>Ynysoedd y Falkland</u>*
*03-16 Rhagfyr 2025*

  Rhoddodd Alun Davies AS gyfrif am ei brofiad diweddar fel Pennaeth y Genhadaeth ar gyfer arsylwi'r etholiadau hyn. Dywedodd fod y genhadaeth wedi bod yn brofiad cadarnhaol ac y byddai'r adroddiad terfynol ar gael yn fuan. Anogodd y Cadeirydd ac Alun Davies AS eraill a allai fod â diddordeb mewn bod yn rhan o arsylwadau yn y dyfodol i ymgymryd â'r hyfforddiant gofynnol a hwyluswyd gan Ysgrifenyddiaeth BIMR.

- *Cyfarfod Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (SC CWP BIMR)*
*Rhithwir*
*26 Ionawr*

  Roedd Rhianon Passmore AS a Natasha Asghar AS wedi mynd i'r cyfarfod a oedd yn cynnwys trafodaethau ar amrywiaeth o faterion,

gan gynnwys:

- *Ymatebion i holiaduron gofal plant mewn cynadleddau;*
- *Diweddariad ar y Rhaglen Fentora;*
- *Diweddariad ar yr holiadur rhoi'r gorau i swydd;*
- *'Mesurau Gweithredu Cadarnhaol mewn Seneddau'r Gymanwlad': Adroddiad Cwotâu Rhywedd*

- *Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
  *Belfast, Gogledd Iwerddon*
  *8-10 Chwefror*

  Cafodd y Senedd ei chynrychioli yn y gynhadledd ddiweddar iawn hon gan Rhianon Passmore AS a Sioned Williams AS.

  Rhoddodd Sian Stoodley, a oedd wedi cefnogi dirprwyaeth y Senedd, drosolwg byr o'r gynhadledd a oedd ar y thema "Pŵer a heddwch: diogelu ein hiechyd meddwl ym maes iechyd y cyhoedd". Lansiwyd Cynllun Mentora Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR yn y gynhadledd.
  Roedd Cadeiryddes etholedig ddiweddar CWP International, Catherine Fyfe (Ontario), yn bresennol yn y gynhadledd.

## 5. CYNLLUNIO AR GYFER Y DYFODOL

**<u>Cyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau arfaethedig</u>**

- *Ymweliad gan ddirprwyaeth o Gynulliad Deddfwriaethol Maharashtra, India*
  *19 Chwefror.*

  Trefnwyd yr ymweliad hwn drwy Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Byddai'r ddirprwyaeth o 15, gan gynnwys Llefarydd y Cynulliad, yn cael cyflwyniad ar y Senedd yn ogystal â sesiwn gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Derek Walker.

  Roedd yr ymweliad yn digwydd yn ystod toriad y Senedd a deallwyd ei bod yn annhebygol y byddai Aelodau ar gael i gyfarfod â'r ddirprwyaeth.

- *Fforwm Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau (CPwD) BIMR*
  *Caeredin, yr Alban (Hybrid)*
  *20 Chwefror*

  Roedd trefniadau wedi'u gwneud i Mark Isherwood AS gyfrannu'n rhithwir yn y Fforwm CPwD BIMR cyntaf hwn.

  Byddai'r rhaglen yn canolbwyntio ar y ddau brif faes canlynol:

  *i) Archwiliadau hygyrchedd*
  *ii) Beth all Seneddau ei wneud i annog rhagor o bobl ag anableddau i sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau.*

  Nodwyd bod y Senedd wrthi'n ystyried cais gan Ysgrifenyddiaeth y Gymdeithas Seneddol i ni gynnal archwiliad hygyrchedd.

**<u>Y SEITHFED SENEDD</u>**

- *55fed Cynhadledd BIMR*
  *Gibraltar*
  *17-20 Mehefin*

  Mae dyddiadau'r Gynhadledd Ranbarthol bellach wedi'u cadarnhau. Roedd ysgrifenyddiaeth Cangen Gibraltar wedi cael gwybod, er bod Cangen y Senedd yn gobeithio anfon nifer llawn o Aelodau i'r gynhadledd, na fyddem mewn sefyllfa i gadarnhau ein dirprwyaeth derfynol tan ddiwedd mis Mai, oherwydd etholiad y Senedd.

- *Senedd Ieuenctid y Gymanwlad (CYP)*
  *Sydney, De Cymru Newydd*
  *27-31 Gorffennaf*

  Roedd trafodaethau ar y gweill gydag ysgrifenyddiaeth Senedd Ieuenctid Cymru er mwyn hysbysebu'r cyfle hwn i gyn-Aelodau cymwys o Senedd Ieuenctid Cymru. Byddai deiliaid swyddi'r Gangen yn asesu'r ceisiadau cyn bo hir fel y gellid cyflwyno ein henwebiad i'r CPA erbyn y dyddiad cau ym mis Ebrill.

- *69ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad*
  *Cape Town, De Affrica*
  *13-18 Medi*

  Roedd dyddiadau diwygiedig ar gyfer CPC eleni bellach wedi'u cadarnhau.

  Byddai'r Gangen yn hysbysebu'r cyfle ym mis Mehefin ac yn cadarnhau ein dirprwyaeth cyn gwyliau'r Haf.

  Roedd Ysgrifennydd Dros Dro'r Gangen wedi cysylltu â'i gymheiriad yn Senedd Talaith Western Cape a oedd wedi cadarnhau y byddent yn falch o hwyluso rhaglen undydd ar gyfer dirprwyaeth y Senedd, fel rhan o'n rhaglen ehangach yn Western Cape.

6. **EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FATER ARALL**

**i)** Nodwyd yr adroddiad gan Adam Price AS a Hannah Blythyn AS ar eu cyfranogiad yng *Nghynhadledd DA Kuala Lumpur*.

**ii) Adolygiad o Reolau Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad**

Fel rhan o'r cyfansoddiad, roedd angen adolygu rheolau'r Gangen ar ddiwedd tymor pob Senedd.

Nododd y Cadeirydd nad oedd y newidiadau arfaethedig ar gyfer rheolau'r Gangen yn newidiadau eang yr oeddem wedi gweithio drwyddynt yn 2021. Yn hytrach, addasiadau oedd y rhain a gynigiwyd i adlewyrchu'n well y ffordd rydym yn gweithio ar hyn o bryd (er enghraifft gyda sefydlu Rhwydwaith LHDT+ BIMR) yn ogystal â gwella dulliau llywodraethu da a chyfleoedd ehangach i ragor o Aelodau'r Gangen.

Gwahoddodd y Cadeirydd Ysgrifennydd Dros Dro'r Gangen i siarad am y newidiadau arfaethedig yr oedd yr Aelodau'n cytuno â nhw.

Fel rhan o drafodaeth ar Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gangen, nododd yr Aelodau eu cefnogaeth i gyfarfodydd yn y Senedd nesaf ddychwelyd i fod yn gyfarfodydd wyneb yn wyneb/hybrid.

<u>Ôl-nodyn:</u> Cafodd rheolau addasedig y Gangen eu cadarnhau'n swyddogol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gangen ar 4 Mawrth a byddant yn dod i rym ar gyfer y Seithfed Senedd.

7. **DYDDIAD CYFARFOD YN Y DYFODOL:**

- 4 Mawrth (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)

**DIWEDD**